14 Rhagfyr 2011

Canllaw ar arfer gorau wrth gyllido undebau myfyrwyr effeithiol, democrataidd, a chynrychiolaeth i fyfyrwyr

Mae Cylchlythyr W11/46HE yn darparu ymgynghoriad ar arfer gorau wrth gyllido undebau myfyrwyr effeithiol, democrataidd, a chynrychiolaeth i fyfyrwyr.

Gwnaethom ddatblygu'r canllaw hwn gyda chymorth grŵp gorchwyl a gorffen, mewn ymateb i gais llythyr cylch gwaith 2011-12 gan Lywodraeth Cymru. Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys Cadeirydd Grŵp Cynghori ar Ddysgu ac Addysgu Dirprwy Is-ganghellor Addysg Uwch Cymru, Llywydd UCM Cymru, swyddog Addysg Uwch Cymru, aelod o staff UCM Cymru, a swyddogion CCAUC. Gwnaethom hefyd ymgynghori â'n Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd wrth ddatblygu'r canllaw hwn, a'i gyflwyno i Gadeiryddion Addysg Uwch Cymru i gael sylwadau.

Rydym yn gwahodd sylwadau ar y canllaw hwn erbyn 8 Chwefror 2012, er mwyn llywio'r gwaith o gyhoeddi'r fersiwn terfynol yn ystod gwanwyn 2012. Gwnaethom gyfeirio'r ymgynghoriad at:

- Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
- Prifathrawon colegau addysg bellach a ariennir yn uniongyrchol yng Nghymru
- Cadeiryddion llywodraethwyr sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach a ariennir yn uniongyrchol yng Nghymru
- Llywyddion Undebau Myfyrwyr

Nid yw'n orfodol i chi ymateb, ac rydym yn croesawu ymateb unigol neu ar y cyd. Fe'ch gwahoddir i gyfeirio unrhyw sylwadau at cliona.oneill@hefcw.ac.uk.

Celia Hunt
Pennaeth Strategaeth, Dysgu a Chyllido